OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 481 (Cy.50)

GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB, CYMRU

Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Cynlluniau Gwella) (Cymru) 2010

Gwnaed - - - -	*24 Chwefror 2010*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*1 Mawrth 2010*
Yn dod i rym - -	*1 Ebrill 2010*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 15(7), 50(1) a (3) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009(**1**) drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Cynlluniau Gwella) (Cymru) 2010 a daw i rym ar 1 Ebrill 2010.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "blwyddyn ariannol" ("*financial year*") yw cyfnod o 12 mis sy'n dechrau ar 1 Ebrill;

ystyr "cynllun gwella" ("*improvement plan*") yw cynllun perfformiad o fewn ystyr adran 15(6) o'r Mesur; ac

ystyr "y Mesur" ("*the Measure*") yw Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

(3) Dim ond i awdurdodau gwella Cymreig sy'n awdurdodau tân ac achub yng Nghymru, wedi'u cyfansoddi gan gynllun o dan adran 2 o'r Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004(**2**) neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno'n gymwys iddo y mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys.

Y dyddiad ar gyfer cyhoeddi cynllun gwella

2. Rhaid i awdurdodau gwella Cymreig gyhoeddi eu cynllun gwella cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl 30 Medi yn y flwyddyn cyn y flwyddyn ariannol y mae'r cynllun gwella yn berthnasol iddi.

(**1**) 2009 mccc.2.
(**2**) 2004 p.21.